



# MEDDWL AM Y DYFOFOL?

Canllaw i atwrneiaeth arhosol



# BETH YW ATWRNEIAETH ARHOSOL?

**Dogfen gyfreithiol yw atwrneiaeth arhosol (LPA). Mae'n eich galluogi chi i ddewis rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo i wneud penderfyniadau ar eich rhan os byddwch chi byth mewn sefyllfa lle na allwch chi wneud hynny.**

Gallai hynny fod oherwydd damwain, salwch, neu adeg mewn bywyd pan fydd gwneud penderfyniadau yn teimlo'n anodd. Mae LPA yn golygu eich bod yn cadw rheolaeth drwy benderfynu pwy sy'n cael camu i mewn – a phryd.

Mae dau fath o LPA. Gallwch ddewis sefydlu un fath o LPA neu'r ddau, yn dibynnu ar yr hyn sy'n teimlo'n iawn i chi.

## **Lles personol**

Mae'r LPA hon yn cwmpasu penderfyniadau am eich gofal meddygol, eich trefn ddyddiol, a'ch trefniadau byw yn y dyfodol. Dim ond os nad ydych yn gallu gwneud y penderfyniadau hyn eich hun y gellir ei ddefnyddio.

## **Materion ariannol ac eiddo**

Mae'r LPA hon yn cwmpasu talu biliau, rheoli eich cyfrif banc neu'ch pensiwn, a gwerthu eich cartref. Gellir ei ddefnyddio cyn gynted ag y bydd wedi'i chofrestru, gyda'ch caniatâd chi.

I wneud LPA, mae angen i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ac yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun ar yr adeg mae'r cais yn cael ei wneud. Allwch chi ddim gwneud LPA ar ran rhywun arall.



## Beth am 'berthynas agosaf'?

Mae'n gred gyffredin y gall eich perthynas agosaf wneud penderfyniadau ar eich rhan yn awtomatig – ond nid yw hyn yn wir.

Heb LPA, ni all neb, hyd yn oed eich teulu, weithredu ar eich rhan os na allwch wneud penderfyniadau drosoch eich hun. Mae hyn yn cynnwys cael mynediad at eich cyfrifon banc, gwneud dewisiadau gofal, neu ddelio â'ch materion. Mae LPA yn gwneud hyn yn bosibl.

# YDYCH CHI'N YSTYRIED GWNEUD LPA?

Os ydych chi'n ystyried sefydlu atwrneiaeth arhosol (LPA), byddwch yn cael eich galw'n 'rhoddwr'. Mae'r term hwn yn golygu eich bod wedi 'rhoi' rhywfaint o bŵer gwneud penderfyniadau i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo os byddwch chi'n colli galluedd meddyliol.

Hyd yn oed gyda'r bwriadau gorau, gall y rhai sy'n agos atoch wynebu heriau yn ystod cyfnod pan fydd angen cymorth arnoch. Mae llawer yn credu bod mesurau diogelu megis cyfrifon banc ar y cyd, ewyllysiau, neu fod yn 'berthynas agosaf' yn caniatáu i aelodau o'r teulu weithredu yn ystod argyfyngau. Yn anffodus, nid yw hynny'n wir bob amser.

Er enghraifft, heb LPA, mae'n bosibl na fydd y bobl rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw yn gallu:

- cael mynediad at eich cyfrif banc, rheoli eich arian na thalu eich biliau (hyd yn oed os ydych chi'n rhannu cyfrif)
- gwneud penderfyniadau am eich iechyd, gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd neu drefniadau byw yn y dyfodol
- siarad â sefydliadau eraill ar eich rhan

Mae LPA yn eich galluogi chi i ddewis rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo a nodi gyda beth y gallant eich helpu. Mae hefyd yn rhywbeth i rannu eich dymuniadau neu eich dewisiadau arno. Byddwch chi'n cadw rheolaeth tra byddwch chi'n gallu gwneud eich dewisiadau eich hun – dim ond cynllun wrth gefn yw'r LPA.

## MEDDWL AM RYWUN ARALL?

Gall meddwl am atwrneiaeth arhosol ar gyfer rhywun sy'n agos atoch deimlo fel cam mawr. Mae'n aml yn deillio o fod eisiau gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu cefnogi os bydd rhywbeth yn newid yn y dyfodol. Mae'n normal bod â chwestiynau ynglŷn â beth mae hynny'n ei olygu.

Gall dechrau'r sgwrs yn gynnar wneud pethau'n gliriach ac yn haws i'r ddau ohonoch. Os ydyn nhw'n penderfynu eich dewis chi i weithredu ar eu rhan, chi fydd yr 'atwrnai', a nhw fydd y 'rhoddwr'.

Yn y rôl hon, bydddech yn cefnogi'r rhoddwr i wneud penderfyniadau neu'n gwneud penderfyniadau ar ei ran os nad yw'n gallu gwneud hynny. Dylech bob amser wneud hyn er lles gorau'r person, gyda'r dymuniadau neu ddewisiadau mae wedi'u rhannu â chi neu wedi'u cynnwys yn yr LPA yn eich arwain.

Mewn llawer o achosion, efallai na fydd angen i chi gamu i mewn am amser hir – neu o gwbl. A phan fydd y rôl yn dod yn weithredol, ni fydd disgwyl i chi ei rheoli ar eich pen eich hun. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau clir, cam wrth gam, i'ch helpu i ddeall beth i'w wneud, er mwyn i chi allu gwneud penderfyniadau'n hyderus.



# CYMRYD Y CAMAU NESAF

**£92**

i gofrestru  
LPA

Mwy o wybodaeth am atwrneiaeth arhosol

**Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am atwrneiaeth arhosol, gallwch fynd i'n gwefan i gael arweiniad syml a gwybodaeth gam wrth gam.**

Mae llawer o bobl yn dewis gwneud cais ar-lein. Mae'r broses yn aml yn symlach na'r disgwyl, a gallwch ei chwblhau ar eich cyflymder eich hun. Mae angen i chi dalu ffi i wneud cais. Fodd bynnag, yn seiliedig ar eich sefyllfa, efallai y byddwch yn gymwys i dalu ffi i neu hyd yn oed i beidio â thalu unrhyw ffi o gwbl.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus /  
Office of the Public Guardian  
PO Box 16185  
Birmingham  
B2 2WH  
United Kingdom

ewch i  
[https://www.gov.uk/  
atwrneiaeth](https://www.gov.uk/atwrneiaeth)



E-bost: [customerservices@publicguardian.gov.uk](mailto:customerservices@publicguardian.gov.uk)

Ffôn: 0300 456 0300